**Newyddion y Tabernacl** **Croeso Bawb** **Medi 25ain, 2016**

**Bwydo'r Di-gartref a'r anghenus yng Nghaerdydd**

Os fyddech yn barod i gynnig sesiwn ar brynhawn Sul yn ystod y flwyddyn nesaf, plis ebostiwch Margaret Calvert ar margaretcalvert@mybtinternet.com

**Y Suliau Nesaf**

**Hydref 2** - Gwilym ac Eleri Huws a chriw Meisgyn

**Hydref 9** - Eirian gyda Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu

**Hydref 16** - Cwrdd Diolchgarwch yng ngofal y Twmiaid a'r Ysgol Sul

**Hydref 23** - Keith Rowlands gyda Bethan Guilfoyle yn llywyddu. Taflen a sgrin yng ngofal Keith

Hydref 30 – Eirian gyda Carol Williams yn llywyddu, Mal Pate sgrin

**GOHIRIO: Noson yr Esgob Jack Spong, Salem Treganna ar nos Lun 24ain Hydref o achos afiechyd difrifol gan yr Esgob.**

## MERCHED Y TABERNACL

Dydd Mercher, Medi 28ain

Te pnawn yn y Plasty (Mansion House), Caerdydd a thaith dywys o amgylch y ty moethus hwn.

(£15 ar y diwrnod)

Cwrdd yno - Heol Richmond CF24 3UN, 2 pm am ddwy awr.

**HELPU FFOADURIAID**

Diolch o galon i bawb am eu cyfraniadau o ddillad, esgidiau ac arian dros yr wythnosau diwetha, ac i'r unarddeg fu'n helpu i ddidoli, pacio, cario a chludo, ddydd Iau a bore Gwener. Mae tri ar ddeg o focsys wedi cychwyn ar eu taith, a bydd mwy yn eu dilyn ymhen yr wythnos.

Allwn ni ddim derbyn mwy o ddillad ac esgidiau ar y funud, ond mae croeso i chi gyfrannu at gost y cludiant os dymunwch.

Carys ac Ann

CAIS: TEULUOEDD LLEOL MEWN ARGYFWNG

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol angen dillad gwely dwbl ac offer cegin ar gyfer teuluoedd lleol. Os gallwch gyfrannu, mynnwch air â John Llewellyn Thomas. Diolch yn fawr.

**Elusennau'r Capel Eleni**

Mae cynnwys yr amlenni brown eleni yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng pump o elusennau lleol:

1. Gofalwyr Ifanc,
2. Gorwelion Newydd Iechyd Meddwl, Aberdâr,
3. Ysgol Tŷ Coch,
4. Prosiect Peilot Cymoedd De Cymru Y Samariaid, a
5. Eye to Eye Counselling Service, Rhondda Cynon Taf.

**Meinciau Newydd**

Erbyn hyn fe welwch bod dwy fainc bren wedi eu gosod yn rhes flaen canol llawr y Capel at ddefnydd y plant lleiaf. Gobeithio'n fawr iawn y bydd y plant yn eu defnyddio i wrando ar Stori'r Plant bob bore Sul.







## Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch

Tabernacl, Efail Isaf am 7.30
30ain Medi
Delwyn Sion - Sgwrs a Chân.
Croeso cynnes i bawb.

Bydd yr **Awdur Americanaidd Brian McLaren** yn siarad yng Nghaerdydd ar Nos Lun, Hydref 11eg. Siaradwr gwych a heriol, gwerth mynd i wrando arno. Tocynnau £10 ar gael ar www.pcnbritain.org.uk neu gan Geraint Rees

Christianity has presented itself as a system of beliefs. That system of beliefs has supported a wide range of unintended consequences - from colonialism to environmental destruction, from subordination of women to stigmatization of LGBT people. What would it mean for Christians to rediscover their faith - not as a system of beliefs, but as a just and generous way of life, rooted in contemplation and expressed in action, that makes amends for its mistakes, and is dedicated to creating a beloved community for all? – Brian McLaren

Daeth y **newyddion trist am farwolaeth chwaer yng nghyfraith Lisa Powell** yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad ati ac i Gavin ei gŵr, a Dafydd a Nia'r plant.